# IS-BWYLLGOR CRAFFU (POLISI AC ADNODDAU) Y CABINET

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mawrth, 20 Chwefror 2024**

| | |
|---|---|
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd C.Jordan** |
| **Cynghorwyr**: | R.G.Jones, S.Pursey a/ac H.C.Clarke |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | T.Davies, S.Rees a/ac H.Jones |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr S.K.Hunt, S.A.Knoyle a/ac A.Llewelyn |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Ionawr 2024 fel cofnod gwir a chywir.

4. **DIWEDDARIAD - PARODRWYDD AM ARGYFWNG**

   Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda. Amlinellodd swyddogion rai o'r pwyntiau allweddol a godwyd yn yr adroddiad.

Dywedodd swyddogion y bwriedir cyflwyno Castell-nedd Port Talbot yn Barod yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, a fydd yn gweithio i gynyddu cadernid cymunedol. Gwahoddir aelodau etholedig i gyfrannu i helpu i roi cynlluniau cadernid penodol ar gyfer wardiau ar waith.

Roedd yr aelodau'n ymwybodol bod parhad busnes a'r gofrestr risgiau wedi cael eu hystyried a'u diweddaru'n rheolaidd. Fodd bynnag, cydnabyddir bod anawsterau o ran diweddaru'r eitemau a hefyd sicrhau bod pwysigrwydd rhoi cynlluniau parhad busnes ar waith ym mhob adran unigol o fewn yr awdurdod lleol yn cael ei gydnabod. Mae'n bwysig bod aelodau'n llwyr werthfawrogi pa mor hanfodol ydynt i gynnal isadeiledd y Cyngor.

Cadarnhaodd swyddogion fod y gofrestr risgiau'n cael ei diweddaru a'i chyflwyno i'r Grŵp Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bob chwarter ac yn cael ei hystyried gan y Cabinet bob chwe mis. Gan gyfeirio at y cynlluniau parhad busnes, mae pob rheolwr atebol yn gyfrifol am sicrhau bod un ar waith ar gyfer ei wasanaeth. Bydd y manylion a gynhwysir yn y cynllun yn cael eu pennu gan y math o wasanaeth ac unrhyw gamau cyflawni hanfodol a nodwyd.

O ran ysgolion, mae cynllun 'Ysgolion Cydnerth' yn mynd i gael ei lansio ar y cyd â'r Adran Addysg. Yn flaenorol, bu anhawster wrth bennu cynlluniau cydnerthedd ar gyfer ysgolion gan nad oedd y fframwaith cynllunio parhad busnes corfforaethol yn diwallu anghenion yr ysgolion. Fodd bynnag, gwnaed gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf i addasu'r fframwaith fel bod ysgolion yn cael eu hystyried yn llawn ar gyfer parhad busnes.

Holodd yr aelodau a oedd trafodaeth wedi bod â Chynghorau Tref a Chymuned. Cadarnhaodd swyddogion fod cwmpas y Tîm Cynllunio Rhag Argyfyngau yn cynnwys yr awdurdod lleol yn unig. Cadarnhaodd swyddogion fod y Tîm Cynllunio Rhag Argyfyngau yn cael ei sefydlu i ymateb i argyfyngau penodol iawn. Fe'i sefydlwyd o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posib. Pe bai digwyddiad mawr yn cael ei gyhoeddi, o dan y Ddeddf mae gan y Cyngor gyfrifoldebau statudol i ymateb yn unol â hynny. Nid yw'r tîm wedi'i gynllunio i ymateb i unrhyw beth a ddisgrifir fel argyfwng. Mae'n benodol iawn yn ei rôl o dan y Ddeddf.

Holodd yr aelodau faint o waith a wnaed mewn perthynas â gwerthusiadau terfysgol sy'n benodol i safle, cynlluniau gweithredu

diogelwch a chynlluniau a lliniaru yn erbyn cerbydau gelyniaethus. Dywedodd swyddogion na ellir darparu gwybodaeth benodol am yr eitem hon oherwydd materion diogelwch. Rhoddwyd sicrwydd i'r aelodau fod eitemau parhaus yn cael eu datblygu.

Rhoddodd swyddogion fanylion am yr ymarferion a gynhaliwyd mewn perthynas ag argyfyngau sifil. Mae'r ymarfer cyntaf yn ymwneud â NPT Connect ac yn profi ymateb y Tîm Teledu Cylch Cyfyng mewn perthynas â galwadau ffôn posib gan Heddlu De Cymru neu Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae ail ran yr ymarfer yn cynnwys tîm swyddogion ar ddyletswydd strategol yr awdurdod ac ymarfer eu hymateb i gais am alwad cydlynu strategol. Yr ail ymarfer yw ymarfer mewnol y ganolfan orffwys sy'n cael ei gynnal bob blwyddyn. Mae'r ymarfer hwn yn profi ymateb y ganolfan orffwys gyda'r gwasanaethau cymdeithasol.

Cadarnhaodd swyddogion fod y gofrestr ar gyfer canolfannau gorffwys dynodedig yn gyfredol. Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau'n rhan o Hamdden Celtic, ond mae rhai canolfannau cymunedol bach hefyd. Mae disgwyl i adolygiad o'r canolfannau gael ei gynnal eleni.

Holodd yr aelodau ba ystyriaeth a roddwyd i aelodau lleol er mwyn deall y cynlluniau sydd ar waith ar gyfer ymateb i argyfwng. Cadarnhawyd bod cynllun ar gyfer rhagor o seminarau aelodau drwy gydol y flwyddyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau. Gofynnodd yr aelodau am y Cyd-bwyllgor Cydnerthedd blaenorol (Cyd-bwyllgor gyda Chyngor Abertawe pan ddarparwyd y gwasanaeth ar y cyd ar draws y ddau gyngor) a oedd ar waith. Cytunodd y cyfarwyddwr i edrych ar rinweddau pwyllgor a sut y sefydlwyd hyn o'r blaen.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 5. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Ni chraffwyd ar unrhyw eitemau.

## 6. **BLAENRAGLEN WAITH 2023/24**

Nodwyd y Flaenraglen Waith.

## 7. EITEMAU BRYS

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

## 8. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

Ni chraffwyd ar unrhyw eitemau yn breifat, felly nid oedd angen yr eitem hon.

## 9. CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU

Ni chraffwyd ar unrhyw eitemau.

**CADEIRYDD**